

## Defnyddio'r we yn ddiogel gartref.

Er bod nifer o ddarparwyr yr we yn cynnig systemau rhidyllu (filtering) i ddiogelu eich plentyn gartref, mae'n parhau i fod yn hawdd i blant gael mynediad i wefannau sydd yn cynnwys deunydd amhriodol fel lluniau, ffilmiau a testunau (texts).

Mae'n bwysig felly lleoli cyfrifiadur y teulu mewn man canolig o fewn y cartref ac nid o fewn ystafell wely plentyn. Gall hyn sicrhau bod gennych rheolaeth wrth i'ch plentyn ddefnyddio'r we.

Mae'n bwysig peidio atal y cyfle i ddysgu ac i chwarae gemau addysgiadol ar y we ond rhaid cofio gwneud hynny o fewn strwythur rheolau syml sy'n sicrhau diogelwch.

## Rheolau syml i gadw eich plentyn yn ddiogel.

### Dylent:

- Ofyn caniatad cyn defnyddio'r we.
- Ddefnyddio'r gwefannau rydych wedi cytuno arnynt gyda'ch plentyn.
- Ebostio pobl maent yn adnabod yn unig.
- Ofyn caniatad i agor ebost a ddanfonwyd gan ddieithryn.
- Ddefnyddio camera (webcam) gyda phobl maent yn adnabod yn unig.
- Ddweud yn syth os ydynt yn gweld unrhywbeth nad ydynt yn hapus ag e.

### Ni ddylent:

- Ddefnyddio "chat rooms".
- Ddefnyddio eu henwau iawn wrth chwarae gemau ar y we.
- Roi manylion personol i unrhywun gan gynnwys cyfeiriad a rhif ffôn/ffôn symudol.
- Roi manylion am eu hysgol gan gynnwys cyfeiriad yr ysgol.
- Drefnu i gwrdd â rhywun maent wedi cwrdd ar y we.

## Gwefannau Defnyddiol

[www.ngfl-cymru.org.uk](http://www.ngfl-cymru.org.uk)  
[www.kids.yahoo.com](http://www.kids.yahoo.com)  
[www.bbc.co.uk/cbbc](http://www.bbc.co.uk/cbbc)

## Defnyddio'r rheolau yma.

Trafodwch y rheolau hyn gyda'ch plentyn a rhowch nhw'n agos at y cyfrifiadur. Cadwch olwg cyson ar y gwefannau mae eich plentyn yn defnyddio.

# TGCh ac e-ddiogelwch i blant.

Gwybodaeth i rieni



## Pwrpas y pamffled yma:

Mae plant heddiw yn defnyddio TGCh gartref ac yn yr ysgol pob dydd. Mae'r pamffled yma yn esbonio:

- Sut mae plant yn defnyddio TGCh yn yr ysgol.
- Sut mae defnyddio TGCh yn y cartref yn helpu eich plentyn i ddysgu.
- Sut gall plant ddefnyddio'r we yn ddiogel gartref.
- Ble gallwch ddarganfod mwy o wybodaeth.

## Sut mae eich plentyn yn defnyddio TGCh yn yr ysgol.

Dysgir TGCh fel pwnc o fewn ysgolion. Mae'r dechnoleg hefyd yn cael ei ddefnyddio i gefnogi dysgu'r plant o fewn pynciau eraill. O fewn gwersi TGCh mae plant yn dysgu i ddefnyddio amrywiaeth o sgiliau gan gynnwys:

**Prosesu Geiriau** i ysgrifennu storïau, barddoniaeth neu lythyron.

**Bas data** i recordio gwybodaeth.

**Taenlenni** i greu tablau a graffiau.

**Cyflwyniadau Amlgyfrwng** i gyflwyno testunnau, lluniau a sain.

**Rhaglenni tynnu lluniau** i greu lluniau a dyluniadau.

**Yr we a CD ROMs** i ddarganfod gwybodaeth.

**Ebost** i gysylltu â phlant ac athrawon o ysgolion eraill.

**Camerau Digidol** i recordio tystiolaeth yn y dosbarth.

**Synwryddon Electronig** i recordio newidiadau golau, sain a thymheredd.

**BeeBots** i roi cyfarwyddiadau ac i wneud i rywbeth ddigwydd.

**Efelychiadau** i ymchwilio sefyllfaoedd go iawn a dychmygol.

## Sut gallwch helpu eich plentyn gartref.

Nid yw TGCh yn cynnwys defnyddio cyfrifiadur yn unig. Mae TGCh hefyd yn cynnwys defnyddio camerau digidol, teganau rheoli a thechnoleg pob dydd fel chwaraewyr CD a DVD. Gellir datblygu sgiliau yn y cartref drwy:

- Ysgrifennu llythyr at ffrind.
- Ddanfon ebost at ffrind.
- Creu llun ar y sgrin.
- Ddefnyddio'r we i ymchwilio topig dosbarth.
- Ddefnyddio gemau rhyngweithiol.
- Gwblhau gwaith cartref ar y cyfrifiadur.

## Manteision defnyddio TGCh gartref.

Sut ydym yn gwybod bod defnydd o TGCh gartref yn helpu? Mae nifer o astudiaethau wedi edrych ar fanteision cael mynediad at gyfrifiadur/yr we yn y cartref. Dyma rai o'r prif ddarganfyddiadau:

- Gall ddefnyddio TGCh yn effeithiol wella cyflawniadau'r plant.
- Gall ddefnyddio TGCh gartref ac yn yr ysgol ddatblygu sgiliau am oes.
- Mae plant sydd â rhieni cefnogol yn gwneud yn well yn yr ysgol.
- Mae plant yn mwynhau defnyddio TGCh.
- Mae defnyddio TGCh yn cynnig mynediad i adnoddau dysgu sy'n fwy eang a hyblyg.

## Sut gall blant elwa wrth ddefnyddio TGCh gartref.

Mae defnyddio TGCh gartref gyda phlant:

- yn datblygu sgiliau TGCh.
- cynnig dewis yn yr hyn maent yn ei ddysgu a sut maen nhw'n dysgu.
- Cefnogi gwaith cartref.
- Gwellu cyflwyniad eu gwaith.
- Cysylltu dysgu yn yr ysgol gyda dysgu gartref.
- Cynnig dysgu hwylus.

Gall hyn i gyd arwain at berfformiad gwell yn yr ysgol a gall wella safonau gwaith y plant.